Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w lyfr diweddaraf, beth sy'n ei ysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

Dod i adnabod

Marlyn Samuel

Crynodeb:

Nofel gyfoes, lawn hiwmor ag iddi linyn storïol gref.

Pan mae ei mab ieuengaf yn penderfynu priodi yn yr Eidal, mae Carys yn edrych ymlaen i fwynhau Sorrento, ac yn goron i'r cwbwl, priodas Gethin a Rebeca. Yn gwmni mae ei mab hynaf Siôn a'i deulu, heb anghofio ei mam Thelma, gwaith caled a dweud y lleiaf! Ond mae pawb yn cael sioc pan mae un gwestai arbennig yn landio.

Hogan o Sir Fôn ydi Marlyn, yn byw ym Mhentre Berw gyda Iwan ei gwr a Bruno y cocapw. Mae'n ymchwilydd i Radio Cymru a phan nad ydi hi'n sgwennu mae hi wrth ei bodd yn mynd â Bruno am dro, ym mwynhau pilates, a chwilio'r we am wyliau!

Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu...

Roeddwn i am greu stori bositif, *feel-good*. Dechreuais i sgrifennu'r nofel yn ystod y Cyfnod Clo llynedd a rhaid i mi gyfadde, roedd hi'n braf cael dianc i'r Eidal a threulio amser yng nghwmni Carys a'i theulu. Mi ges i bleser mawr yn ei sgwennu hi. Dwi'n gobeithio caiff y rhai sy'n darllen y nofel yr un pleser a mwynhad. Mae'n archwilio'r syniad: os ydi rhywbeth i fod i ddigwydd, mi ddigwyddith. Dim ots faint o amser mae'n ei gymryd – ffawd mewn geiriau eraill.

Mae'r nofel wedi ei lleoli yn haul Sorrento adeg priodas deuluol. Mae Carys, y prif gymeriad (a mam y priodfab) yn ei chanol hi, yn trio mwynhau gwyliau bach dramor, yn chwarae ei rhan yn nhrefniadau'r briodas ac yn trio plesio Thelma, ei mam – tipyn o gamp ynddo'i hun. Ac mae yna *twist* ar y diwedd!

Beth ydych chi'n gobeithio y bydd darllenwyr yn ei gael o'r stori hon?

Mwynhad a phleser pur. Yn anffodus mi ydan ni'n byw mewn cyfnod eithaf dyrys rhwng pob dim – braf ydi gallu dianc i fyd dychmygol nofel – yn enwedig nofel sy'n codi'r galon fel *Pum Diwrnod a Phriodas* gobeithio.

Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch drwy eich bywyd?

O'n i wrth fy modd pan oedd y fan llyfrgell yn dod draw i'r ysgol pan o'n i'n blentyn yn ysgol Gynradd Llanddeusant. Hyd heddiw dwi'n cofio camu i mewn i'r fan werdd a rhyfeddu ar y silffoedd yn llawn llyfrau o bob math. Dwi'n cofio yr arogl arbennig yn y fan, arogl llyfrau a'r cloriau wedi'u gorchuddio mewn plastig. Hefyd, roedd y *van library*, fel roedd yn cael ei alw, yn dod heibio tŷ Nain ym Mynydd Mechell. Roedd Nain yn ddarllenwraig frwd, llyfrau Cymraeg a Saesneg. Dwi'n cofio gweld copi llyfrgell ganddi o gyfrol Kate Roberts *Yr Wylan Deg*. Roeddwn innau yn cael dewis llyfrau o'r fan hefyd.

Yn ddiweddarach, roeddwn i'n arfer mynd yn aml efo fy ngenod i, Miriam a Hawys, i Lyfrgell Llangefni a hwythau wrth eu boddau yn cael mynd i gornel y plant.

ylolfa
www.ylolfa.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru